Cynllun Busnes 2019-20

Cymwysterau Cymru
Qualifications Wales

Cynnwys

Cynnwys

1. Cymwysterau Cymru **3**

1.1. Cyflwyniad **3**

1.2 Ein diben **3**

2. Cyd-destun presennol **4**

3. Blaenoriaethau gweithredol 2019-20 ..... **5**

3.1. Cyflwyniad a Chyd-destun **5**

3.2. Blaenoriaeth 1 – Adolygu **6**

3.3. Blaenoriaeth 2 – Diwygio **7**

3.4. Blaenoriaeth 3 – Rheoleiddio **8**

3.5. Blaenoriaeth 4 – Adnoddau Corfforaethol **9**

4. Cyllid a gwariant arfaethedig (2019-20) **12**

5. Monitro ac adolygu **13**

6. Dolenni defnyddiol **13**

1. Cymwysterau Cymru

1.1. Cyflwyniad

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru. Rydym yn gorff annibynnol sy'n canolbwyntio ar gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, gan gynnwys cymwysterau TGAU, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol. Rydym yn gweithio gydag eraill i adolygu a diwygio cymwysterau.

Nid yw graddau yn rhan o'n gwaith, ond rydym yn gweithio gyda phrifysgolion a cholegau er mwyn sicrhau eu bod yn deall cymwysterau er mwyn i ddysgwyr allu symud ymlaen i addysg uwch. Rydym am sicrhau bod y cymwysterau gorau yn cael eu cynnig i ddysgwyr, athrawon a chyflogwyr, gan helpu pobl i addasu mewn byd sy'n newid yn gyflym. Rydym yn gweithio gyda chyrff dyfarnu i ymestyn argaeledd cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

2019-20 yw ein pedwaredd flwyddyn weithredol. Rydym wedi sefydlu ein strategaeth tymor hwy, ac yn edrych ymlaen at barhau â'n rhaglenni i gefnogi a chryfhau'r system gymwysterau yng Nghymru. Amlygir ein strategaethau isod:

Strategaeth Cymwysterau Cymru
Cynllun Strategol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol
Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol
Cynllun Strategol ar gyfer Gallu Corfforaethol

Mae'r Cynllun Busnes hwn ar gyfer 2019-20 yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol, ac mae wedi'i sefydlu yng nghyd-destun y dirwedd cymwysterau bresennol a'n gwaith parhaus. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cymeradwyo gan ein Bwrdd.

Rydym yn croesawu unrhyw adborth a all fod gennych.

1.2. Ein diben

Fel rheoleiddiwr annibynnol, mae gennym ddau brif nod:

- Sicrhau bod cymwysterau (a system gymwysterau Cymru) yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;

- Ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru.

Golyga hyn fod dysgwyr yn ganolog i'n gweithgareddau.

Golyga hefyd ein bod yn gyfrifol am edrych dros y system gymwysterau gyfan er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio er budd dysgwyr, a gweithredu neu gynghori eraill i wneud hynny os oes angen. Rhan o'n gwaith yw sicrhau bod cymwysterau o fewn y system yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gennym bwerau a dyletswyddau i reoleiddio cyrff dyfarnu a gallwn wneud ymyriadau cadarnhaol i sicrhau gwelliannau i gymwysterau neu'r system gymwysterau.

Yn Cymwysterau Cymru, rydym yn diogelu gwerth cymwysterau, gan oruchwylio'r broses o ddyfarnu cymwysterau'n deg a'u hadolygu a'u datblygu wrth i anghenion dysgwyr newid.

Fel yr arbenigwyr yr ymddiriedir ynddynt ym maes cymwysterau, rydym yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion perthnasol. Rydym hefyd yn ystyried anghenion cyflogwyr, y sector addysg uwch a'r proffesiynau.

2. Cyd-destun presennol

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn cwmpasu ein pedwaredd flwyddyn weithredol. Fel arfer, mae'r system addysg a chymwysterau o ddiddordeb mawr i wleidyddion a'r cyhoedd ac rydym yn gweld rhaglen gynyddol o ddiwygio a newid.

Rydym yn cyrraedd diwedd rhaglen diwygio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, gyda'r haen olaf o gymwysterau newydd yn cael eu dyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2019. Ein prif rôl nawr yw sicrhau bod y cymwysterau hyn yn parhau i gael eu hasesu a'u dyfarnu mewn ffordd deg, er mwyn cynnal safonau a sicrhau hyder y cyhoedd.

Rydym wedi dysgu llawer o wersi o'r broses ddiwygio a byddwn yn eu defnyddio wrth i ni edrych ar y newidiadau sydd angen eu gwneud i gymwysterau ar gyfer disgyblion rhwng 14 ac 16 er mwyn ategu'r cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae'r amserlen ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yn golygu y bydd angen i Gymru sicrhau bod cymwysterau newydd yn barod i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2025 a'u dyfarnu yn ystod haf 2027. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ein syniadau a byddwn yn cynnal ymgynghoriad yn ystod hydref 2019. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar ein gwaith er mwyn ystyried gwelliannau i Fagloriaeth Cymru. Byddwn yn sicrhau y caiff cymwysterau yng Nghymru eu llunio ar gyfer y dyfodol, ac y gwneir y newidiadau er mwyn i athrawon a dysgwyr gael eu cefnogi. Er mwyn cefnogi'r diwygiadau hyn, byddwn yn sicrhau bod gennym y gallu a'r sgiliau i'w cyflawni.

Ar yr un pryd, byddwn yn parhau â'n rhaglen o adolygiadau sector, gan ystyried a yw'r amrywiaeth o gymwysterau mewn sector diwydiant yn diwallu anghenion dysgwyr a'r diwydiant. Rydym eisoes wedi dechrau ein hadolygiad o'n cymwysterau Peirianneg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni a byddwn yn parhau i wneud hyn yn ystod y flwyddyn i ddod. Byddwn yn dyfarnu contract i ddatblygu a darparu cymwysterau newydd ym maes Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu, yn dilyn ein hadolygiad o'r sector hwn, a byddwn yn gweld yr haen gyntaf o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd yn cael eu haddysgu o fis Medi 2019. Pan fyddwn yn gwneud newidiadau i gymwysterau, y diben yw sicrhau asesu gwell, llwybrau cynnydd cliriach i ddysgwyr a ffocws clir ar yr hyn y mae

cyflogwyr a chyrff sector yn dweud yr hoffent ei gael. Mae hyn yn helpu i greu gweithlu sy'n briodol i anghenion Cymru yn yr 21ain ganrif.

Cefnogir ein gwaith gan raglen o ymchwil a data sy'n cael eu casglu a'u dadansoddi. Mae hyn yn adeiladu ein sail dystiolaeth a'n dealltwriaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau.

Gan edrych y tu allan i Gymru, rydym yn parhau i fonitro datblygiadau ledled y DU. Rydym yn edrych yn ofalus ar effaith bosibl y lefelau T newydd ar yr amrywiaeth o gymwysterau sydd ar gael yng Nghymru. Rydym hefyd yn parhau i fonitro effaith y gwahaniaethau o ran polisi prentisiaethau rhwng Cymru a Lloegr, ac yn trafod y rôl y gall Cymwysterau Cymru ei chwarae wrth barhau i ddatblygu prentisiaethau.

Mae uchelgais Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn golygu bod ein gwaith o gynyddu nifer y cymwysterau y gellir astudio ar eu cyfer drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig unwaith eto. Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau i gynnig grantiau a datblygu ein polisïau Cymraeg er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud popeth y gallwn i gyfrannu at y nod hwn.

Byddwn yn parhau i lunio ein dull rheoleiddio. Rydym yn gobeithio cwblhau gwaith ar Amodau Cydnabod Safonol newydd, gan weithio'n agos gydag Ofqual yn Lloegr a CCEA Regulation yng Ngogledd Iwerddon. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y rhain yn ystod 2019 er mwyn eu rhoi ar waith yn 2020. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, rydym yn disgwyl gweld rheoliadau'n cael eu hystyried a fydd yn cadarnhau cwmpas ein pwerau i roi cosbau ariannol, os cânt eu pasio.

Er nad yw rheoliadau wedi cael eu pasio eto i wneud Safonau'r Gymraeg yn gymwys i ni, rydym wedi mabwysiadu llawer o'r rhain ymlaen llaw, heb gael ein gorfodi i wneud hynny. Er mwyn dangos ein hymrwymiad, byddwn yn cyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg gwirfoddol. I'r un perwyl, rydym wedi mabwysiadu'r ffyrdd o weithio sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, heb gael ein gorfodi i wneud hynny. Byddwn yn parhau i weithio tuag at ein hamcanion cydraddoldeb a'n hamcanion llesiant ac ymgorffori ein polisïau Cymraeg.

3. Blaenoriaethau gweithredol (2019-20)

3.1. Cyflwyniad a chyd-destun

Mae blaenoriaethau gweithredol 2019-20 yn ategu cynllun y llynedd ac maent wedi eu hail-gategoreiddio er mwyn adlewyrchu ein dull gweithredu presennol. Mae pedair blaenoriaeth weithredol ar gyfer 2019-20:

1. Adolygu
2. Diwygio
3. Rheoleiddio
4. Gallu ac adnoddau corfforaethol

3.2. Blaenoriaeth 1 – Adolygu

Ein blaenoriaeth yw gweithio'n effeithiol gyda'r system gymwysterau yn ei chyfanrwydd yng Nghymru. Rydym yn edrych tuag at allan felly, rydym yn ymgysylltu, yn cyfathrebu ac yn cydweithio er mwyn gwella ein dealltwriaeth a'n gallu i wella cymwysterau er mwyn diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn gwneud gwaith ymchwil, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid megis ysgolion, colegau, prifysgolion a chyflogwyr ac yn ymgyfarwyddo â'r dirwedd polisi ehangach yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU. Rydym yn adolygu ac yn gwerthuso agweddau ar y system gymwysterau gyda'r nod o sicrhau y caiff anghenion dysgwyr eu diwallu, a thrwy hynny wella hyder y cyhoedd ynddynt yn y pen draw.

Yn 2019-20, byddwn yn gwneud y canlynol:

Ystyried sut y gall cymwysterau ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed helpu i gefnogi'r cwricwlwm newydd yng Nghymru
Mae datblygu cwricwlwm cenedlaethol newydd i Gymru yn debygol o arwain at newidiadau sylweddol i gymwysterau ar gyfer dysgwyr rhwng 14 a 16 oed. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn datblygu egwyddorion a gweledigaeth lefel uchel ar gyfer y cymwysterau a gynigir yn y dyfodol, ac yn ymgynghori ar hyn. Byddwn wedyn yn datblygu ein cynlluniau ar gyfer camau dylunio, datblygu a darparu'r cymwysterau newydd. Byddwn hefyd yn nodi unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer y trefniadau rheoleiddio.

Cynnal adolygiad o'r sector Peirianneg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni
Rydym eisoes wedi dechrau ar ein hadolygiad o'r sector Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal dros ddwy flynedd. Yn 2019, byddwn yn casglu barn dysgwyr a rhanddeiliaid, ac yn cynnal adolygiad technegol a chymhariaeth ryngwladol. Byddwn yn dod â'r canfyddiadau ynghyd ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn ystyried a oes angen cymryd camau gweithredu ac, os felly, ddatblygu cynigion.

Datblygu polisi, strategaeth a chanllawiau ar faterion cymwysterau galwedigaethol trawsbynciol
Bydd nifer o ddatblygiadau polisi sylweddol yn Lloegr yn effeithio ar y farchnad cymwysterau galwedigaethol yn y DU – gan gynnwys lefelau T ac asesiadau ar gyfer prentisiaethau. Byddwn yn monitro'r newidiadau yn Lloegr yn ofalus ac yn datblygu'r ffordd rydym yn ymdrin â chymwysterau yn unol â hynny. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn cymwysterau galwedigaethol er mwyn atgyfnerthu'r system gymwysterau.

Llywio gwaith blaengynllunio ar gyfer cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru
Rydym yn gwneud ymchwil i roi sail dystiolaeth i'n penderfyniadau strategol, a llywio ein polisi rheoleiddio a'n gwaith cynllunio ar gyfer y tymor hwy. Bydd yn cynnwys: • Asesiad diarholiad; • Cymwysterau a ddilynir mewn ysgolion (e.e. gwaith ar argaeledd cymwysterau a nifer yr ymgeiswyr dros amser a rhagdybiaethau ynghylch cymwysterau diwygiedig); • Ymgysylltu a'r defnydd o dechnoleg ym maes asesu; • Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau.

3.3. Blaenoriaeth 2 – Diwygio

Rydym yn ymrwymo i adolygu'r cymwysterau a gynigir yng Nghymru a'r system gymwysterau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion rhesymol y dysgwr ac ennyn hyder y cyhoedd. Gall hyn arwain at waith sylweddol i newid cymwysterau presennol neu gomisiynu rhai newydd. Mae hyn yn rhan bwysig o'n gwaith a gall gael effaith sylweddol. Rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid er mwyn deall a rheoli effaith newidiadau.

Yn 2019-20, byddwn yn gwneud y canlynol:

Gweithredu ar yr argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad o Fagloriaeth Cymru
Ym mis Ebrill 2018, gwnaethom gyhoeddi adolygiad o'r Dystysgrif Her Sgiliau a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru. Mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad, gwnaethom sefydlu gweithgor er mwyn ystyried dyluniad y Dystysgrif Her Sgiliau. Yn 2019-20, byddwn yn parhau i weithio gyda'r grŵp hwn er mwyn datblygu cynigion ar gyfer newid ac ymgysylltu â rhanddeiliaid am y rhain. Byddwn hefyd yn ystyried sut mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â'r diwygiadau ehangach a fydd yn ategu'r cwricwlwm newydd.

Gweithredu'r ymrwymiadau sy'n deillio o'r adolygiad o'r Sector Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
Yn 2018-19, gwnaethom gyhoeddi ein hadolygiad o'r sector Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) – *Digidol i'r dyfodol*. Cafodd yr adolygiad a'r cynigion dilynol ar gyfer gweithredu groeso, felly yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn bwrw ymlaen â'r broses o ddatblygu cymwysterau TGAU a Lefel A newydd mewn Technoleg Ddigidol.

Gweithredu'r ymrwymiadau o'r adolygiad o'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
Nododd ein hadolygiad o'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (a gyhoeddwyd yn 2016) fod angen cyfres ddiwygiedig o gymwysterau. Rydym wedi comisiynu consortiwm o gyrff dyfarnu City & Guilds a CBAC er mwyn datblygu'r cymwysterau hyn, sydd wrthi'n cael eu datblygu i'w haddysgu am y tro cyntaf o 2019 a 2020.

Gweithredu'r ymrwymiadau sy'n deillio o'r adolygiad o'r sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
Ym mis Chwefror 2018, gwnaethom gyhoeddi ein hadolygiad o'r sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig – *Adeiladu'r Dyfodol* – a'n hymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r cymwysterau yn y sector hwn. Cafodd ein cynigion groeso, ac felly gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i adolygu'r cymwysterau yn y sector hwn. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn dyfarnu'r contract i ddatblygu cyfres o gymwysterau adeiladau a gwasanaethau adeiladu newydd.

Cefnogi'r system gymwysterau drwy arian grant
Byddwn yn parhau i annog cyrff dyfarnu i gynnig cymwysterau ac asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cynnig grantiau er mwyn cefnogi argaeledd cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyfathrebu ac ymgysylltu ynghylch yr agenda ddiwygio
Bydd darparu ymgyrchoedd cyfathrebu wedi'u targedu er mwyn cefnogi ein blaenoriaethau diwygio craidd yn helpu ein rhanddeiliaid i ddeall y rhesymau dros y newidiadau. Byddwn yn parhau i gydgysylltu â'n cydweithwyr ym maes addysg uwch ledled y DU er mwyn meithrin dealltwriaeth well o'r newidiadau i'r cymwysterau yng Nghymru. Mae'n bwysig sicrhau bod canolfannau yng Nghymru yn ymwybodol o'r newidiadau i'r cwricwlwm ac yn barod amdanynt. Rydym am i ganolfannau fod yn hyddysg ac yn barod.

3.4. Blaenoriaeth 3 – Rheoleiddio

Rydym yn rheoleiddio cymwysterau sy'n cael eu datblygu a'u cyflwyno gan y cyrff dyfarnu a gydnabyddir gennym. Pan fydd corff dyfarnu yn un a gydnabyddir, rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau a bennir gennym. Rydym yn monitro cydymffurfiaeth yn erbyn ein Hamodau Cydnabod, ac yn defnyddio ein pwerau gorfodi a sancsiynu pan na fydd cyrff dyfarnu yn cydymffurfio. Pan fo'n briodol, rydym yn defnyddio pwerau gorfodi er mwyn sicrhau bod y system yn diwallu anghenion dysgwyr.

Yn 2019-20, byddwn yn gwneud y canlynol:

Goruchwylio'r gwaith o bennu a chynnal safonau priodol ym maes cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol
Byddwn yn goruchwylio'r broses o sicrhau safonau teg o un gyfres arholiadau i'r nesaf. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill fel y bydd dealltwriaeth gyffredin o'n dull o gynnal safonau.

Monitro cymwysterau
Byddwn yn parhau i fonitro'r cymwysterau sydd newydd gael eu diwygio yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n effeithiol a'u dyfarnu i'r safon briodol.

Monitro cydymffurfiaeth cyrff dyfarnu
Rhaid i gyrff dyfarnu gyflwyno datganiad cydymffurfio blynyddol i ni. Byddwn yn adolygu'r

dystiolaeth a gyflwynwyd yn erbyn ein hymholiadau ac yn monitro cyrff dyfarnu nad ydynt yn cydymffurfio er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd camau gweithredu priodol i gydymffurfio'n llawn. Byddwn yn parhau â'n rhaglen o archwiliadau â ffocws ar nifer ddethol o gyrff dyfarnu. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad ar ein gwaith monitro ar gymwysterau diogelwch bwyd ac yn symud ymlaen i gymwysterau iechyd a diogelwch.

Prosesu ceisiadau i gydnabod, ildio a dynodi cymwysterau

Byddwn yn adolygu ceisiadau gan sefydliadau sydd am ddod yn gyrff dyfarnu cydnabyddedig. Byddwn hefyd yn prosesu unrhyw geisiadau gan gyrff dyfarnu sydd am i ni ddynodi eu cymwysterau neu sydd am ildio cydnabyddiaeth eu sefydliad, neu eu cydnabyddiaeth am gymwysterau penodol.

Adolygu a rheoli'r gronfa ddata rheoleiddio cymwysterau (QiW)

Mae QiW yn gronfa ddata y mae Cymwysterau Cymru yn berchen arni ac yn ei rheoli. Mae'n dal gwybodaeth am gymwysterau sy'n gymwys i gael cyllid cyhoeddus ar gyfer dysgwyr yng Nghymru sydd dan 19 oed, ac eithrio addysg uwch. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i adolygu a diweddaru QiW ac yn ymateb i adborth gan randdeiliaid er mwyn gwella'r system yn barhaus.

Ymgorffori a pharhau i adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau rheoleiddio

Mae gennym raglen dreigl o adolygiadau polisi rheoleiddio. Yn 2019-20, byddwn yn adolygu detholiad o bolisïau presennol yn unol â'r dyddiad adolygu a gyhoeddwyd. Bydd diwygio ein Hamodau Cydnabod Safonol yn un o'n gweithgareddau sylweddol. Gan weithio gyda rheoleiddwyr eraill, byddwn yn eu hadolygu ac yn eu diwygio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pasio rheoliadau sy'n ein galluogi i roi cosbau ariannol; bydd gan gyrff dyfarnu lwybr apelio clir. Byddwn yn sefydlu'r gweithdrefnau er mwyn ein galluogi i roi cosbau ariannol.

Casglu data a llunio ystadegau swyddogol

Byddwn yn parhau i gasglu'r data sydd eu hangen er mwyn hwyluso ein swyddogaethau a chyhoeddi ein cyfres o Ystadegau Swyddogol yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Mae'r data hyn yn cyflwyno gwybodaeth dryloyw ac yn dangos tueddiadau sy'n ymwneud â'r cymwysterau a gaiff eu hastudio yng Nghymru.

Cyfathrebu ac ymgysylltu ynghylch y system gymwysterau

Mae ein cyfathrebiadau'n rhan graidd o ennyn hyder y cyhoedd. Byddwn yn parhau i gryfhau ein cyfathrebiadau er mwyn esbonio'r system gyfathrebiadau. Rydym yn gweithio ledled Cymru i gefnogi ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith, er mwyn eu helpu i ddefnyddio'r system gymwysterau'n effeithiol. Byddwn hefyd yn darparu'r Fforwm blynyddol ar gyfer Cyrff Dyfarnu er mwyn canolbwyntio ar ddatblygiadau yn y system.

3.5. Blaenoriaeth 4 – Adnoddau corfforaethol

Gwyddom fod meddu ar adnoddau corfforaethol cryf ac effeithiol yn cefnogi ein gallu i gyflawni ein hymrwymiadau ac yn gwella ein henw da gyda rhanddeiliaid. Rydym yn ymdrechu i wneud penderfyniadau sy'n gytbwys ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn gwrando ar randdeiliaid ac yn cyflwyno gwybodaeth glir. Rydym am barhau i ennyn ymddiriedaeth drwy reoli ein hadnoddau a'n harferion corfforaethol sy'n cydymffurfio yn gadarn ac yn effeithiol.

Yn 2019-20, byddwn yn gwneud y canlynol:

Parhau i ddatblygu adnoddau corfforaethol er mwyn helpu a herio'r sefydliad i ddefnyddio'i adnoddau yn y ffordd orau bosibl gan gynnal cydymffurfiaeth a diogelu ein henw da yn y meysydd canlynol:

- Cyfathrebu
- Llywodraethu Corfforaethol
- Cyfleusterau
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- TG
- Caffael

Dechrau caffael systemau cyllid ac AD newydd

Eleni, byddwn yn dechrau'r broses o ail-dendro darpariaeth ein systemau Cyllid ac AD. Yn 2019-20, byddwn yn adolygu ac yn ystyried ein gofynion, yn ymgysylltu â'r farchnad ac yn datblygu cynllun caffael manwl, gan gynnwys darparu adnodd ychwanegol y bydd ei angen er mwyn rhoi unrhyw newidiadau ar waith.

Parhau i ddatblygu'r sefydliad

Yn ystod y chwarter cyntaf, rydym yn rhagweld y byddwn yn rhoi newidiadau strwythurol ar waith o fewn y sefydliad. Felly, ein blaenoriaeth fydd cefnogi'r staff ac ymgorffori'r newidiadau'n hwylus. Bydd hyn yn digwydd ochr yn ochr â'n hymateb i'n Harolwg Pobl Blynyddol, lle byddwn yn ystyried cytuno ar gamau gweithredu a'u cyflawni. Bydd ein strategaeth gyfathrebu fewnol yn sail i'r holl waith hwn.

Parhau i gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb

Ym mis Ionawr 2019, gwnaethom lansio ein Hamcanion Cydraddoldeb newydd ar gyfer 2019-2022. Wrth ddatblygu'r amcanion hyn, gwnaethom ymgysylltu â nifer o sefydliadau cydraddoldeb a dros y flwyddyn nesaf, yn ogystal â chyflawni camau gweithredu Blwyddyn 1 a nodwyd yn ein cynllun, rydym yn ymrwymedig i barhau i feithrin ein perthynas â'r sefydliadau hyn er mwyn gwella ein gwaith cydraddoldeb.

Parhau i ddatblygu ein dull corfforaethol o ymdrin â'r Gymraeg

Rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein swyddogaethau allanol yn ddwyieithog a chreu gweithlu sy'n cefnogi'r Gymraeg. Er nad yw Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i ni eto, byddwn yn cyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg gwirfoddol yn ystod 2019-20.

Parhau i weithio tuag at y Safon Iechyd Corfforaethol
Yn 2018-19, gwnaethom gyrraedd lefel Efydd y Safon Iechyd Corfforaethol, gan gydnabod pwysigrwydd iechyd a llesiant yn y gweithle. Eleni, byddwn yn parhau â'n gwaith ac yn canolbwyntio ar ymgorffori a chynnal diwylliant a dull cynhwysol o ymdrin ag iechyd a llesiant.

Cynnal ein cyfraniad ehangach at y sector cyhoeddus yng Nghymru
Yn unol â llesiant 'Ffyrdd o Weithio' Cenedlaethau'r Dyfodol, byddwn yn parhau i roi cyngor a chymorth ynghylch TG i gyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru, ac yn gweithio gyda grŵp AD y cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu trefniadau cyffredin ar gyfer hyfforddiant rheoli.

Cadarnhau'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm
Rydym yn cydnabod arwyddocâd diwygio'r cwricwlwm. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar gynllunio a sicrhau cyllid, staff a chyfleusterau ychwanegol er mwyn cyflawni'r gweithgareddau rydym wedi'u disgrifio yn adran 'Adolygu' y cynllun hwn.

4. Cyllid a gwariant arfaethedig (2019-20)

Mae Cymwysterau Cymru yn cael ei ariannu'n bennaf gan Lywodraeth Cymru. Ein dyraniad cyllid ar gyfer 2019-20 yw £8.267m. Rydym hefyd yn bwriadu creu incwm gwerth oddeutu £50k drwy ddarparu gwasanaethau cefnogi TGCh i ddau gorff arall a noddir gan Lywodraeth Cymru ac, ar 1 Ebrill 2019, roedd gennym gronfa wrth gefn o £353k y gellir ei defnyddio ar ein mantolen.

Mae gennym Gynllun Cyllid Tymor Canolig, a gafodd ei ddiweddaru ddiwethaf ym mis Mawrth 2019 ar gyfer y cyfnod rhwng 2019-20 a 2021-22. Mae hyn yn dangos sut y gellir rheoli ein gweithgareddau disgwyliedig a chostau cysylltiedig o fewn lefelau cyllido disgwyliedig dros y cyfnod hwn.

Ar lefel gryno, mae ein cyllideb ar gyfer 2019-20 fel a ganlyn:

Maes	**Cyllideb 2019-20 £'000**
Cyflogau **Grantiau** **Costau Rhaglenni** **Costau Gweithredu**	5,083 675 1,056 1,378
Cyllid Craidd Cymwysterau Cymru	**8,192**
Grant Cymraeg i Oedolion	200
Cyfanswm Cyffredinol	**8,392**
Ariennir drwy **Grant gan Lywodraeth Cymru** **Defnydd Cynlluniedig o'r Gronfa Wrth Gefn**	 8,267 125
Cyfanswm	**8,392**

Wrth i ni ymwneud yn fwy â'r rhaglen diwygio cymwysterau cyffredinol yn ystod 2019-20, mae'n debygol y byddwn yn dechrau mynd i gostau ychwanegol. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid ychwanegol os na allwn dalu costau'r gweithgareddau ychwanegol hyn gyda'n cyllid craidd.

Mae'r diagram isod yn dangos sut rydym yn bwriadu gwario ein cyllideb o £8.392m.

5. Monitro ac adolygu

Rydym yn monitro cynnydd yn erbyn ein cynlluniau yn rheolaidd, gan gyflwyno adroddiadau bob mis i'n Bwrdd Rheoli mewnol ac adroddiadau bob chwarter i'n Bwrdd. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o gyflawniadau yn ystod y flwyddyn yn ein cyfrifon diwedd blwyddyn. Byddwn hefyd yn rhoi rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau a'n cyflawniadau yn ein hadroddiad blynyddol (ar gyfer y flwyddyn academaidd o fis Medi 2018 i fis Awst 2019). Rydym yn cyflwyno ein hadroddiad blynyddol er mwyn i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad graffu arno; mae hyn yn rhan o'n gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

6. Dolenni defnyddiol

Gweler isod ddolenni i rai dogfennau defnyddiol a all roi mwy o gyd-destun i'r Cynllun Busnes hwn:

- Gwefan Cymwysterau Cymru
- Cyfrifon Blynyddol 2017-18
- Adroddiad Blynyddol 2017-18
- Strwythur Bwrdd Cymwysterau Cymru
- Strwythur Gweithredol Cymwysterau Cymru